

# CADW'N LACH YN Y GWAITH

# ASTUDIAETH ACHOS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

RHONDDA CYNON TAF

“Byddwn i wir yn argymell y gwasanaeth yma i bawb, nid yn unig am ei fod am ddim ond oherwydd mae'r gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn yn wych."

## Gwybodaeth am Wasanaeth Cadw’n Iach yn y Gwaith

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig dull rhagweithiol ac integredig sy'n cefnogi atal afiechyd corfforol a meddyliol, wrth gefnogi'r broses adsefydlu a rheoli cyflyrau tymor hir.

Rydyn ni'n darparu cymorth clinigol i staff busnesau bach a chanolig yn Rhondda Cynon Taf i helpu pobl i weithio'n well o ddydd i ddydd ac i reoli symptomau er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau i weithio.

## Y Broblem

Roedd perchennog y busnes yn teimlo bod angen adolygu a diweddaru polisïau'r cwmni yn ogystal â derbyn argymhellion ar gyfer unrhyw bolisïau craidd ychwanegol nad oedd gan y busnes ar waith.

## Ein Datrysiad Ni

Fe wnaeth Swyddog Polisi a Datblygu Adnoddau Dynol Cadw'n Iach yn y Gwaith gynnal adolygiad o'r polisi absenoldeb salwch i gynnwys deddfwriaeth allweddol a chyfeiriad at iechyd galwedigaethol, cynllun dangos y ffordd a hawl i gael cwmni mewn cyfarfodydd adolygu absenoldeb.

Cafodd y polisi mamolaeth ei ddiwygio i gynnwys elfennau o'r polisi beichiogrwydd yn y gwaith.

Cafodd polisïau tadolaeth, mabwysiadu a rhannu cyfnodau o absenoldebau rhieni eu drafftio.

Cyfunwyd polisi disgyblu ac apelio. Cafodd y polisi rheoli gwrthdaro a'r polisi trafod cwynion eu cyfuno.

## Adborth

**Joanne Baldock, Perchennog Role Play Lane** - “Rydw i wedi derbyn cymorth gan garfan Cadw'n Iach yn y Gwaith ers ychydig fisoedd bellach ac mae rhaid i mi ddweud eu bod wedi creu argraff fawr arna i. Maen nhw wedi darparu ystod o wybodaeth a dogfennau i mi i gefnogi fy musnes bach ac rydw i bob amser yn teimlo'n hollol gartrefol yn siarad â nhw am fy mhryderon. Roedd y garfan yn hapus i dreulio amser yn trafod fy holl anghenion busnes ac wedi darparu'r dogfennau i mi yn gyflym. Fe wnaethon nhw hefyd anfon gwybodaeth ata i am iechyd meddwl a lles, sy'n arbennig o bwysig yn ystod argyfwng presennol COVID-19. Diolch o galon i'r garfan!”

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

*Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn darparu cymorth clinigol i staff busnesau bach a chanolig eu maint yn Rhondda Cynon Taf i wella sut mae'r busnes yn rhedeg o ddydd i ddydd a rheoli symptomau gan alluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith, neu barhau i weithio.*

RHONDDA CYNON TAF